# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PWYLLGOR

# SAFONAU YMDDYGIAD

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# 2005

## Cynnwys


1. Cyflwyniad

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

3. Cwynion

4. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

   - Adolygiad o'r Gweithdrefnau Safonau
   - Y Seiri Rhyddion
   - Comisiynydd Safonau
   - Y Weithdrefn Gwyno
   - Cofrestr Buddiannau'r Aelodau
   - Materion Eraill

5. Casgliadau'r Pwyllgor ar Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))


## Atodiadau


Atodiad A: Cylch gorchwyl y Pwyllgor

Atodiad B: Crynodeb o'r cwynion a gyflwynwyd yn erbyn Aelodau'r Cynulliad 1999-2005

**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Dyma chweched adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16. Mae'n ymwneud â'r cyfnod o 1 Ionawr 2005 tan 31 Rhagfyr 2005.

1.2 Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn un o chwe Phwyllgor Sefydlog y Cynulliad. Dyma Aelodau'r Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad:

Cadeirydd
Kirsty Williams, Democratiaid Rhyddfrydol, Brycheiniog a Sir Faesyfed

Aelodau
David Davies, Ceidwadwyr, Mynwy
Jocelyn Davies, Plaid Cymru, Dwyrain De Cymru
Tamsin Dunwoody, Llafur, Preseli Sir Benfro
Val Lloyd, Llafur, Dwyrain Abertawe
Lynne Neagle, Llafur, Tor-faen
Karen Sinclair, Llafur, De Clwyd
Gwenda Thomas, Llafur, Castell-nedd
Owen John Thomas, Plaid Cymru, Canol De Cymru
Brynle Williams, Ceidwadwyr, Gogledd Cymru

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad. Cynhaliwyd tri chyfarfod yn gyhoeddus. Fodd bynnag, cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat ar un achlysur yn unol â Rheol Sefydlog 16.5. [brig]

## 2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae Rheol Sefydlog 16 yn nodi cylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'r gofynion o ran aelodaeth, rôl y Comisiynydd Safonau, cyfarfodydd ac adroddiadau. Ceir copi o Reol Sefydlog 16 yn Atodiad A.

2.2 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau, ac unrhyw faterion o eyddor yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Mae’r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau. [brig]

## 3. Cwynion

3.1 Mae crynodeb o'r holl gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ers dechrau'r Cynulliad Cenedlaethol i'w weld yn Atodiad B.

3.2 Yn ystod cyfnod yr Adroddiad, dim ond un cwyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor i'w ystyried. Hon oedd y gw^yn gyntaf i'w hystyried o dan y Weithdrefn newydd ar gyfer Delio â Chwynion yn erbyn Aelodau'r

Cynulliad, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 18 Tachwedd 2004. Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor mewn perthynas â'r gw^yn hon gerbron y Cynulliad ar 7 Rhagfyr 2005 - gwrthodwyd y gw^yn yn unfrydol. [brig]

## 4. Y Rhaglen Waith a'r Gweithgareddau

4.1 Ym mis Gorffennaf 2003, cytunodd y Pwyllgor ar ei flaenraglen waith, a oedd yn amlinellu'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn ystod y 2-3 blynedd nesaf.

4.2 Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhoddwyd blaenoriaeth i dri maes penodol:

i) Yr Adolygiad o Weithdrefnau Safonau'r Cynulliad gan yr Athro Woodhouse ar drefniadau Safonau Ymddygiad y Cynulliad;
ii) Y Seiri Rhyddion;
iii) Rôl y Cynghorydd Annibynnol yn y Dyfodol (Y Comisiynydd Safonau).

4.3 Fel y pwysleisia'r adroddiad hwn, llwyddodd y Pwyllgor i ddod i gasgliad o ran llawer o'r gwaith a gynhaliwyd ers 2003 a chafodd gymeradwyaeth y Cynulliad yn ystod 2005.

Adolygiad o'r Gweithdrefnau Safonau

4.4 Parhaodd y Pwyllgor i ystyried a gweithredu argymhellion adroddiad yr Athro Diana Woodhouse ar ei hadolygiad o'r Gweithdrefnau Safonau yn y Cynulliad, gan ystyried a chytuno ar nifer o faterion yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys:

- dylid pennu un trothwy o 0.5% o gyflog blynyddol gros sylfaenol Aelod Cynulliad yn hytrach na'r ddau drothwy presennol ar gyfer cofrestru lletygarwch a rhoddion diriaethol ac anniriaethol;
- dylid pennu trothwy ar gyfer cofrestru cyfranddaliadau o 1% o'r cyfalaf cyfrannau a ddyrannwyd neu werth sy'n cyfateb â 50% o gyflog blynyddol gros sylfaenol Aelod Cynulliad, yn seiliedig ar werth cyfranddaliadau ar y farchnad a gaiff eu diweddaru'n flynyddol ar 5 Ebrill;
- dylid defnyddio'r term "Lobïo am Dâl neu Ystyriaeth" yn lle "eiriolaeth am dâl" a dylid defnyddio'r term "Cytundebau ar gyfer Darparu Gwasanaethau" yn lle "Cytundebau Cyflogi" yn Rheol Sefydlog 4 ac mewn mannau eraill yn y canllawiau.

4.5 Ystyriwyd y 31 o argymhellion a wnaed yn Adroddiad Woodhouse yn llawn gan y Pwyllgor, a gweithredwyd 25 ohonynt. [brig]

Y Seiri Rhyddion

4.6 Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003, ailystyriodd y Pwyllgor Safonau a oedd newydd ei ethol p'un a oes angen i Aelodau gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion ai peidio. Daethant i'r casgliad bod y Pwyllgor blaenorol wedi ystyried yr holl opsiynau'n drylwyr a bod y cynigion, a wrthodwyd gan fwyafrif bychan iawn yn y Cynulliad ym mis Tachwedd 2002, dal yn cynnig y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd o ran y seiri rhyddion a sefydliadau eraill sydd ag aelodaeth gaeedig.

4.7 O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor ailgyflwyno'r cynnig i ddileu'r gofyniad hwn i'r Cyfarfod Llawn ei gymeradwyo. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid dileu'r gofyniad ar Aelodau i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion ac yn hytrach, gofyn iddynt gofnodi aelodaeth o unrhyw glwb neu gymdeithas breifat y ceir aelodaeth ohonynt drwy wahoddiad neu broses ddethol. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan y mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair, a mabwysiadwyd Rheol Sefydlog 38 newydd gan y Cynulliad ar 20 Ebrill 2005. [brig]

Y Comisiynydd Safonau

4.8 Ar 2 Mawrth, cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol newidiadau i Reolau Sefydlog er mwyn creu swydd Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gysoni gwaith y Cynulliad â chyrff deddfwriaethol eraill gan ddangos bod Aelodau'r Cynulliad yn benderfynol o gadw at y safon ymddygiad uchaf o ran moeseg.

4.9 Cynhaliwyd y broses benodi gan banel gyda'r Llywydd yn cadeirio. Roedd y Cynulliad, yn dilyn argymhelliad y panel penodiadau, yn falch o gynnig enw Richard Penn fel Comisiynydd Safonau cyntaf y Cynulliad a chymeradwywyd ei benodiad yn unfrydol gan y Cynulliad ar 15 Mawrth 2005. Daw Mr Penn â chyfoeth o brofiad i'r swydd ac mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weithio gydag ef yn ystod y pedair blynedd nesaf.

Rôl y Comisiynydd

4.10 Mae rôl y Comisiynydd yn adeiladu ar waith y Cynghorydd Annibynnol a benodwyd cyn hynny, ond yn mynd ymhellach i ddarparu mwy o ymreolaeth. Mae dyletswyddau'r Comisiynydd yn cynnwys:

- ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o gwynion yn erbyn Aelodau;
- cynghori'r Pwyllgor ar faterion o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Pwyllgor ar faterion o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau Aelodau a chofnodi eu haelodaeth o gymdeithasau.

4.11 Mewn perthynas â'i ddyletswyddau sy'n codi o gwynion yn erbyn Aelodau, y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb llwyr dros ymchwilio i

gwynion i ddechrau, gan nodi a ydynt yn 'dderbyniol'. Gall hefyd gyfeirio cwynion yn uniongyrchol at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'w hystyried, a oedd gynt yn un o swyddogaethau'r Llywydd.

4.12 Yn dilyn adolygiad Woodhouse, cytunodd y Pwyllgor ofyn am gydweithrediad arweinwyr y Pleidiau (ac eraill) i hybu'r Diwylliant Safonau yn y Cynulliad. Mae hwn yn dasg y mae'r Comisiynydd yn ei ddatblygu ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am yr ymdrechion a wnaed.

4.13 Bu datblygu gwefan ar gyfer y Comisiynydd yn gam pwysig ymlaen o ran sicrhau bod ei swydd mor agored a thryloyw â phosibl. Mae'r wefan yn darparu cyfeiriad e-bost neilltuol ar gyfer cysylltu â'r Comisiynydd yn uniongyrchol, ac fe'i defnyddir hefyd ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth allweddol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod hyn fel cam cadarnhaol o ran datblygu safonau ymddygiad. [brig]

Y Weithdrefn Gwyno

4.14 Effeithiolrwydd y Weithdrefn Gwyno oedd un o brif themau'r Adroddiad gan yr Athro Diana Woodhouse, a dyma oedd yn llunio cyfran uchel o'i hargymhellion. Yn ystod 2004, bu'r Pwyllgor yn gweithio i gynhyrchu gweithdrefn newydd a oedd yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Athro Woodhouse. Cymeradwywyd Gweithdrefn Gwyno newydd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2004, a chymeradwyodd y Cyfarfod Llawn y newidiadau angenrheidiol i'r Rheol Sefydlog ar 2 Mawrth 2005.

4.15 Mae'r weithdrefn newydd yn darparu rhai datblygiadau allweddol yn y ffordd y caiff cwynion eu prosesu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mwy o ymreolaeth i'r Comisiynydd Safonau wrth sifftio a rheoli cwynion;
- darpariaeth i'r Comisiynydd Safonau adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor;
- argymhellion clir ar y mesurau y gellir eu defnyddio;
- darparu gweithdrefn apelio.

4.16 Bydd y gwelliannau i'r Weithdrefn, ynghyd â phenodi Comisiynydd Safonau â mwy o gyfrifoldebau, yn cryfhau'r system ar gyfer cynnal safon ymddygiad uchel gan Aelodau'r Cynulliad ac yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu diwylliant safonau cadarn o fewn y Cynulliad.

4.17 Mae cynnwys gweithdrefn apelio yn ychwanegiad gwerthfawr, gan gysoni'r Weithdrefn â chyrff deddfwriaethol eraill - roedd hyn yn argymhelliad uniongyrchol a wnaed gan yr Athro Woodhouse. Mae'r Llywydd wrthi'n datblygu'r trefniadau ar gyfer sefydlu paneli apelio, a disgwylir y byddant wedi'u sefydlu'n llawn ar ddechrau 2006.

4.18 Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Weithdrefn Gwyno newydd yn decach, yn fwy agored a thryloyw ac yn cynnig mwy o eglurder i'r rheini sy'n ymwneud â phob agwedd ar y broses gwyno. Mae profiad wedi dangos efallai y bydd angen gwneud rhai addasiadau er mwyn symleiddio'r broses a'i gwella ymhellach. Wrth geisio mabwysiadu'r arfer gorau lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i ddatblygu'r weithdrefn yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd, nid yn unig drwy ein prosesau ein hunain, ond trwy brosesau mewn sefydliadau tebyg. [brig]

Cofrestr Buddiannau'r Aelodau

4.19 Caiff Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ei chadw a'i chyhoeddi gan y Swyddfa Gyflwyno yn unol â'r Rheolau Sefydlog a'r canllawiau a gyhoeddir. Mae adroddiad 'byw' o'r Gofrestr ar gael ar-lein ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, wrth i fanylion ddod i law.

4.20 Mae Clerc y Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am Gofrestru Buddiannau Aelodau, a bydd yn cyflwyno adroddiadau ar ddatblygiadau'r Gofrestr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Swyddfa Gyflwyno yn derbyn ymholiadau ynghylch buddiannau Aelodau unigol a'r aelodau'n gyffredinol o hyd. Daw'r rhan fwyaf o'r ymholiadau gan y cyhoedd neu'r wasg. Ni chafwyd cymaint o ddiddordeb yn y Gofrestr yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

4.21 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cytunodd y pwyllgor ar nifer o newidiadau i'r Gofrestr, yn seiliedig ar argymhellion Adolygiad Woodhouse. Amlygwyd y rhain yn gynharach yn yr adroddiad. Ym mis Tachwedd 2005, eto'n dilyn ymlaen o adroddiad Woodhouse, cytunodd y Pwyllgor y dylai rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd gan Aelodau gael eu cofrestru ar sail gronnus yn ystod cyfnod Cynulliad pedair blynedd. Ceisir cymeradwyaeth am y newidiadau angenrheidiol i Reolau Sefydlog a chanllawiau yn hyn o beth gan y Cynulliad maes o law.

## 5. Casgliadau'r Pwyllgor ar Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 161.1(v))

5.1 Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, mae'n ofynnol ar y Pwyllgor i gyflwyno ei gasgliadau mewn perthynas â safonau moesegol wrth i'r Cynulliad gynnal ei fusnes.

5.2 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd Safonau, fel rhan o'i adolygiad parhaus o weithdrefnau Safonau, adeiladu ar safonau moesegol presennol, gan weithio gydag Aelodau a rhanddeiliaid eraill tuag at greu Diwylliant Safonau cadarn yn y Cynulliad. Cymerwyd camau sylweddol eisoes drwy benodi Comisiynydd, a thrwy gymeradwyo'r weithdrefn well ar gyfer delio â chwynion.

5.3 O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ac i'r Comisiynydd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn, ymddengys nad oes fawr o reswm dros bryderu ynghylch safonau moesegol Aelodau. Mae'r Cynulliad wedi

parhau i wneud cynnydd o ran atgyfnerthu'r system ar gyfer monitro a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau'r Cynulliad, ac o ran ceisio sicrhau na chaiff y safonau hynny eu torri drwy ganllawiau gwell a chymorth i Aelodau. Hoffai'r Cynulliad fanteisio ar y cyfle hwn i bwysleisio unwaith eto yn adroddiad eleni, fod yn rhaid i ni ochel rhag bod yn hunanfodlon os ydym am gynnal y safonau moesegol uchaf.

5.4 Gall pasio Mesur Llywodraeth Cymru hefyd arwain at wneud swydd y Comisiynydd yn un statudol, a dyma fydd un o'r prif bethau y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried yn ystod 2006/07.[brig]

**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD, Mai 2005**

**Atodiad A**

**STANDING ORDER 16 - Committee on Standards of Conduct**

**Title and Terms of Reference**

16.1 There shall be a Committee on Standards of Conduct, which shall:

(i) investigate, report on and, if appropriate, recommend action in respect
of any complaint referred to it by the Commissioner for Standards that a Member has not complied with Standing Order 4 or any Assembly resolution relating to the financial or other interests of Members, or that a Minister has not complied with the requirements of Standing Order 2.8;

(i) (a) investigate, report on and if appropriate, recommend action in respect of any complaint referred to it by the Commissioner for Standards that a member has not complied with any requirement to record matters specified under Standing Order 38.

(ii) investigate, report on and, if appropriate, recommend action in respect
of any complaint referred to it by the Commissioner for Standards that a Member has not complied with any Assembly resolution relating to Members' standards of conduct or with the guidance for Ministers which the Assembly has approved in accordance with Standing Order 2.7 or the Code of Conduct under Standing Order 18.14;

(iii) consider any matters of principle relating to the conduct of Members generally;

(iv) supervise the arrangements for the compilation, maintenance and accessibility of the Register of Members' Interests and the Record of Membership of Societies, and the form and content of the Register and the Record;

(v) present an annual report to the Assembly on the complaints made under (i), (i)(a) and (ii) and the action taken, and on its conclusions in respect of ethical standards in the conduct of the Assembly's business; and .

(vi) establish and lay before the Assembly procedures for the investigation of complaints under Standing Orders 16.1 (i), (i)(a) and (ii).

**Membership**

16.2 The Assembly shall elect a Member to chair the Committee, together with other Members elected so far as practicable to reflect the balance of political groups in the Assembly. The Presiding Officer shall not be a member of the Committee, but shall be entitled to attend any meeting of the Committee, or submit papers to it, for the purpose of drawing to its attention such considerations as he or she considers appropriate.

16.2 A Where a Committee Member is subject to a complaint under this Standing Order he or she shall take no part in any consideration of the complaint by the Committee. In such circumstances, and in relation solely to the consideration of the complaint concerned, another Member from the same political group, who has been nominated in advance by the Leader of that group, may replace that member. The nominated Member may participate in the meetings of the Committee to consider the complaint as if he or she were a member of it. No Member may replace more than one Committee member at a meeting.

**Commissioner for Standards**

16.3 The Assembly shall appoint a person who is not an Assembly Member or a member of its staff to act as the Commissioner for Standards. The duties of the Commissioner shall be:

i. to investigate factual matters arising out of any complaint against a Member;

ii. to advise the Committee on any matters of general principle relating to the standards of conduct of Members;

iii. to advise the Committee on any matters of general principle relating to the Registration of Members' Interests and the Recording of Membership of Societies; and

iv. otherwise render such assistance on matters relating to the standards of conduct of Members as the Assembly may from time to time decide.

16.3A Where the Commissioner for Standards is unable, for whatever reason, to investigate a complaint, the chair of the Committee (or if he or she is unable to act another member of the Committee acting on his or her behalf) shall propose to the Assembly the temporary appointment of a person, who is not an Assembly Member or a member of its staff, to investigate the complaint. Time shall be made available as soon as possible for such a motion to be debated; and in any event such a debate shall take place within five working days of the motion having been tabled. Such motions shall not be subject to amendment.

**Meetings**

The Committee shall meet as soon as may be after a complaint has been referred to it by the Commissioner for Standards; and at other times as convened by the chair.

16.5 The Committee may meet in public or in private, but when deliberating upon a complaint, the Committee shall meet in private unless it resolves otherwise. Any Member who is the subject of an investigation by the Committee shall be permitted to make oral or written representations

to it and may be accompanied at oral hearings by another person (who may participate in the proceedings with the permission of the chair).

16.6 The chair may, after consulting the Presiding Officer, call a meeting of the committee in a week in which the Assembly is not holding a Plenary meeting in order to consider an urgent matter.

**Reports**

16.7 If the Committee has investigated a complaint referred to it by the Commissioner for Standards, it shall report to the Assembly as soon as may be after completion of the investigation. Such a report may include a recommendation to censure a Member for failing to comply with any of the matters encompassed within Standing Order 16.1 (i), 16.1(i)(a) or 16.1 (ii).

16.8 If a motion to consider a report under Standing Order 16.7 is tabled by a member of the Committee, time shall be made available as soon as possible for the motion to be debated. Such motions shall not be subject to amendment.

16.9 The Committee may report to the Assembly on other matters within its remit from time to time.

**Atodiad B**

**Adroddiad y Comisiynydd Safonau: Crynodeb o Gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad: 1999 tan fis Rhagfyr 2005**

| | **Cwynion a gyfeiriwyd at y Cynghorydd Annibynnol[1]** | **Cwynion a wrthodwyd gan y Llywydd** | **Cwynion a dynnwyd yn ôl gan yr Achwynydd** | **Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau** | **Gwrthodwyd gan y Pwyllgor** | **Cadarnhawyd gan y Pwyllgor** | **Dim penderfyniad hyd yn hyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1999 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2000[2] | 13 | 8 | 0 | 5 | 4 | 1 | 0 |
| 2001 | 6 | 4 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| 2002 | 9 | 8 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2003 | 8 | 7 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| 2004 | 9 | 7 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Ion - Mawrth 2005 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **47** | **36** | **2** | **9** | **7** | **2** | **0** |
| Mawrth 2005 – Mabwysiadu Gweithdrefn Newydd ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad | | | | | | | |
| | **Cwynion a gyfeiriwyd at y Comisiynydd Safonau** | **Cwynion a wrthodwyd gan y Comisiynydd Safonau** | **Cwynion a dynnwyd yn ôl gan yr Achwynydd** | **Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau** | **Gwrthodwyd gan y Pwyllgor** | **Cadarnhawyd gan y Pwyllgor** | **Dim penderfyniad hyd yn hyn[3]** |
| Mawrth – Rhag 2005 | 7 | 5 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **54** | **41** | **2** | **10** | **8** | **2** | **1** |

**Nodiadau**

[1] Yn cynnwys y cwynion hynny sy'n bodloni'r meini prawf yng Ngham 4 Cyfnod Rhagarweiniol Gweithdrefn Gwyno'r Cynulliad.
[2] Cymeradwywyd Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 6 Gorffennaf 2000. [top]
[3] 1 cwyn yn destun ymchwiliad gan y Comisiynydd Safonau erbyn 31/12/05.